

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	17.07.23
Pwnc / Subject:	Newidiadau arfaethedig i'r gyfres o Reoliadau y mae ysgolion annibynnol yng Nghymru yn gweithredu oddi tanynt

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

At ei gilydd, rydym yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r gyfres o Reoliadau y mae ysgolion annibynnol yng Nghymru yn gweithredu oddi tanynt.

Rydym yn croesawu'r symudiad i greu cydraddoldeb rhwng ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, lle bo'n briodol ac rydym yn cefnogi'r bwriad i wella ansawdd addysg a lles, iechyd a diogelwch disgyblion mewn ysgolion annibynnol.

Yn ein hymatebion, rydym wedi awgrymu ychydig o feysydd lle gellid cryfhau neu ddiwygio'r cynigion ymhellach i sicrhau eglurder ar gyfer perchnogion a'u hysgolion.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Newidiadau trosfwaol

Cwestiwn NT1 – Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau trosfwaol arfaethedig yn gysylltiedig â chyfrifoldeb terfynol y perchennog i gydymffurfio â'r Rheoliadau a chadw cyfeiriadau at ddysgwyr â datganiadau yn ystod cyfnod cyflwyno'r system anghenion dysgu ychwanegol a'r tribiwnlys addysg?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymeg

Rydym yn cytuno â'r newid arfaethedig yn ymwneud â'r perchennog yn cael cyfrifoldeb terfynol am gydymffurfio â'r Rheoliadau. Bydd y newid hwn yn ei gwneud yn gliriach i'r holl ysgolion pwy sydd â'r cyfrifoldeb a phwy ddylai fod yn atebol am unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio. Rydym yn awgrymu y dylid cryfhau'r rhestr bresennol o gyfrifoldebau i'r perchennog gynnwys y cyfrifoldeb am sicrhau bod 'gwybodaeth yn cael ei darparu'.

Yn ychwanegol, gan fod deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn cael ei chyflwyno dros gyfnod, mae'n gwneud synnwyr i gadw'r cyfeiriad at ddatganiadau o fewn y Rheoliadau.

Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried aralleirio'r paragraff canlynol er eglurder.

Yn dilyn arolygiad o dan adran 163(1) Deddf 2002, caiff copi o adroddiad yr arolygiad ei gyhoeddi a'i gynnal ar wefan rhyngwrwyd yr ysgol, ac erbyn dyddiad a nodwyd gan y corff a gynhaliodd yr arolygiad. Pan fydd gan y disgybl cofrestredig gynllun datblygu unigol neu ddatganiad, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU.

Credwn y dylai hyn yn hytrach ddweud:

Yn dilyn arolygiad o dan adran 163(1) Deddf 2002, caiff copi o adroddiad yr arolygiad ei gyhoeddi a'i gynnal ar wefan rhyngwrwyd yr ysgol, ac erbyn dyddiad a nodwyd gan y corff a

gynhaliodd yr arolygiad. Pan fydd gan y disgybl cofrestredig gynllun datblygu unigol neu ddatganiad, dylai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU hefyd dderbyn copi o'r adroddiad gan yr ysgol.

Cwestiwn NT2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig â'r newidiadau trosfwaol?

Rhowch sylwadau ychwanegol

Rydym yn cytuno ag egwyddor dileu cyfeiriadau at ddogfennau a enwir, ond yn hytrach cyfeirio at fwriad polisi er mwyn diogelu'r Rheoliadau at y dyfodol.

Rydym hefyd yn cytuno'n gryf ag egwyddor creu cydraddoldeb rhwng ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, lle bo'n briodol. Credwn fod yr egwyddor hon yn hynod bwysig wrth ystyried beth mae addysg amser llawn yn ei olygu, gan fod ein gweithgarwch arolygu yn nodi anghysondeb ym maint yr amser addysgu dros y cyfnod o wythnos ar draws y sector annibynnol.

Credwn fod y gofyniad i gofrestru gyda CGA yn gam cadarnhaol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw system gofrestru CGA yn dal rhestr gywir o ysgolion annibynnol ar hyn o bryd i alluogi staff i gofrestru o dan eu hysgol a enwyd. Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru hysbysu CGA am y gofrestr ddiweddaraf o ysgolion annibynnol yn rheolaidd.

Safon 1 – Ansawdd yr addysg a ddarperir

Cwestiwn 1.1 – Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 1?

Ydw	✓	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	---	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymeg

At ei gilydd, rydym yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 1.

Rydym yn croesawu'r cynnig i godi lefel y disgwyliad o ddigonol neu foddhaol i dda neu effeithiol. Rydym hefyd yn cefnogi cryfhau'r Safon i sicrhau bod anghenion disgyblion unigol yn cael eu diwallu a bod yr ysgol yn **gweithredu** ac yn **defnyddio** polisiau ac adnoddau.

Yn ychwanegol, rydym yn croesawu'r cynnig i sicrhau nad yw addysgu'n tanseilio gwerthoedd democratiaeth, rheol y gyfraith a pharch ar y ddwy ochr, a goddefgarwch o'r rhai sydd â gwahanol ffydd a chredoau. Rydym yn croesawu ymgorffori Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y safon gan ei bod yn caniatáu i ysgolion ag iddynt gymeriad

gwahanol fodoli, er enghraifft gwahanol ysgolion ffydd, tra'n cydnabod bod pawb yn gyfartal.

Mae dileu'r cyfeiriadau at 'amser dosbarth', 'ystafell ddosbarth', ac ati, yn adlewyrchu'r newid yn y tirlun addysgol a'r newid i ymagwedd gyfunol at ddysgu. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r ymgynghoriad p'un a yw'r addysg a ddarperir ar-lein yn unig gan ddarparwr yn gofyn iddo gofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel 'ysgol annibynnol'. Rydym yn meddwl y dylai fod yn ofynnol i ysgolion ar-lein sy'n bodloni'r gofynion i gofrestru fel ysgol annibynnol wneud hynny, ac eithrio o ran rhai o'r gofynion yn gysylltiedig â llety.

Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno dileu'r dyblygiad yn y pwyntiau bwled isod:

- Mae'r perchennog yn sicrhau bod yr addysgu yn yr ysgol yn galluogi disgyblion i gaffael gwybodaeth newydd a gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu fel eu bod yn cynyddu eu dealltwriaeth ac yn datblygu eu medrau yn y pynciau a addysgir.
- Yn galluogi disgyblion i gaffael gwybodaeth newydd a gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu fel eu bod yn cynyddu eu dealltwriaeth ac yn datblygu eu medrau yn y pynciau a addysgir

Cwestiwn 1.2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig ag ansawdd yr addysg a ddarperir?

Rhowch sylwadau ychwanegol

Ar hyn o bryd, o fewn Safon 1, mae gofyniad i ysgolion ddarparu addysg amser llawn dan oruchwyliaeth ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol. Credwn y dylai fod yna ganllawiau clir i berchnogion ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ystyried yn addysg amser llawn, h.y. nifer yr oriau addysgu fesul wythnos a / neu nifer y dyddiau mewn blwyddyn ysgol. Gan nad oes diffiniad cyfreithiol o addysg amser llawn, efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno newid geiriad y gofyniad i 'ddarparu'r addysg dan oruchwyliaeth **sylweddol** ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol'.

Mae Rheoliad 1(2)(g) yn gofyn am addysg gyrfaoedd briodol ar gyfer **disgyblion oedran uwchradd yn unig**. Credwn y dylid ystyried ehangu'r gofyniad hwn i ddarparu addysg gyrfaoedd briodol i'r **holl ddisgyblion** mewn ysgol yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru yn y sector a gynhelir.

Safon 2 – Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Cwestiwn 2.1 – Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 2?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	----------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymeg

At ei gilydd, rydym yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 2.

Rydym yn croesawu'r newidiadau arfaethedig i gryfhau'r Rheoliad gyda pharch i werthoedd democratiaeth, cyfraith sifil a throseddol, ac ati, ac atal hyrwyddo safbwyntiau gwleidyddol pleidiol.

Croesewir y manylder ychwanegol i egluro'r cyfraniad y dylid annog disgyblion i'w wneud i'w hysgol a'r gymuned leol, gan fod ysgolion yn dehongli'r rheoliad presennol yn rhy aml fel pe bai'n berthnasol i weithgareddau o fewn yr ysgol yn unig.

Cwestiwn 2.2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig â datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr?

Rhowch sylwadau ychwanegol

Dim sylwadau pellach

Safon 3 – Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Cwestiwn 3.1 – Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 3?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymeg

At ei gilydd, rydym yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 3.

Rydym yn croesawu cryfhau'r safon hon i sicrhau bod perchnogion yn mynd ati i hyrwyddo lles dysgwyr.

Credwn y gellid aralleirio'r rheoliad ychydig i gynnwys pob aelod o staff:

- I'r perchennog sicrhau bod **pob aelod o staff**, ond yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau arwain a rheoli yn yr ysgol, fynd ati i hyrwyddo lles y dysgwyr

Bydd hyn yn galluogi mwy o frys wrth weithredu ac yn sicrhau atebolrwydd y perchnogion.

Rydym yn croesawu cryfhau'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant diogelu i sicrhau diogelwch yr holl ddysgwyr, ac yn cytuno na fyddai'n briodol bod yn rhagnodol ynglŷn â phwy ddylai ddarparu hyfforddiant o'r fath. Yn ychwanegol, byddem yn croesawu cryfhau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel trwy gynnwys llywodraethwyr yn y grŵp staff y mae'n ofynnol iddynt gael hyfforddiant diogelu.

Croesewir y gofyniad newydd i adolygu polisïau ysgol yn rheolaidd a sicrhau eu bod yn adlewyrchu deddfwriaeth, canllawiau a pholisi **Cymru**. Bydd hyn yn mynd i'r afael â

materion yr ydym yn eu darganfod yn ystod ein gweithgarwch arolygu lle nad yw ysgolion yn adlewyrchu'r canllawiau diweddaraf neu'u bod yn canolbwyntio'n anghywir ar ddeddfwriaeth neu ganllawiau Saesneg. At ei gilydd, rydym yn gweld bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn adolygu polisiâu yn rheolaidd ac felly ni fyddai'r gofyniad ychwanegol yn feichus.

Rydym yn cytuno â chryfhau canllawiau ar ddefnyddio arferion cyfyngol ac ataliaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru i leihau arferion cyfyngol.

Cwestiwn 3.2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig â lles, iechyd a diogelwch dysgwyr?

Rhowch sylwadau ychwanegol

Dim sylwadau pellach

Safon 4 – Addasrwydd y perchennog a'r staff

Cwestiwn 4.1 – Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 4?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymeg

I sicrhau diogelwch yr holl ddysgwyr, credwn y dylai pawb sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â dysgwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau rheoledig fod yn destun gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).

Rydym yn croesawu ymestyn y gofynion ar gyfer gwiriadau gan y GDG a chynyddu amllder cynnal gwiriadau gan y GDG. Rydym hefyd yn croesawu'r gofyniad i staff a gyflogir mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda CGA.

Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried geirio'r gofyniad i lywodraethwyr ysgol gael y gwiriadau hyn i fod yn ehangach er mwyn cwmpasu ystod y cyd-destunau a welir mewn ysgolion annibynnol.

Er enghraifft;

- Llywodraethwyr ysgol, bwrdd ymddiriedolwyr, panelau cynghori a'r rhai sydd â chyfrifoldebau arwain a rheoli

Er bod y newidiadau hyn i'w croesawu, ni ddylid dibynnu ar y GDG fel yr unig fecanwaith i sefydlu addasrwydd i weithio gyda phlant. Dylai pob ysgol gwblhau amrywiaeth o wiriadau cyn-cyflogaeth, a dylid cofnodi'r rhain.

Cwestiwn 4.2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig ag addasrwydd y perchennog a'r staff?

Rhowch sylwadau ychwanegol

Byddem yn croesawu ychwanegu gofyniad i bob ysgol ddal un gofrestr ganolog, sy'n cynnwys manylion am y gwiriadau cefndir a gynhaliwyd, a chan bwy.

Yn cynnwys y gofyniad i:

- Wirio pwy yw pobl
- Gwirio cymwysterau
- Gwirio am fylchau mewn hanes cyflogaeth
- Casglu o leiaf ddau eirda proffesiynol
- Gwirio hawl i weithio yn y DU
- Cwblhau gwiriadau heddlu dramor – (lle mae angen)
- Cwblhau gwiriad gwaharddiad o addysgu

Bydd y gofyniad i gynnal y gwiriadau hyn a chofnodi'r canlyniadau yn helpu sicrhau bod arferion recriwtio trylwyr a mwy diogel yn cael eu gweithredu, a fydd yn eich helpu i gadw disgyblion yn ddiogel.

Safon 5 – Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Cwestiwn 5.1 – Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 5?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymeg

At ei gilydd, rydym yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 5 ac yn croesawu'r newidiadau arfaethedig i sicrhau bod yr holl gyfleusterau yn hygyrch i bob dysgwr. Rydym yn ymwybodol y bydd y gofyniad hwn yn heriol i rai ysgolion, oherwydd natur hanesyddol a rhestredig eu hadeiladau.

Cwestiwn 5.2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig ag eiddo a llety preswyl mewn ysgolion?

Rhowch sylwadau ychwanegol

Rydym yn ystyried y dylai fod yn ofynnol o hyd i ysgolion sy'n gweithredu dysgu ar-lein gofrestru fel ysgolion annibynnol lle maent yn bodloni meini prawf eraill perthnasol. Byddai'n fuddiol ystyried a nodi pa agweddau ar Safon 5 allai fod yn eithriedig yn yr achosion hyn.

Safon 6 – Darparu gwybodaeth

Cwestiwn 6.1 – Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 6?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymeg

At ei gilydd, rydym yn cytuno â'r awgrym i gryfhau Safon 6.

Byddwn hefyd yn gweld ei bod yn ddefnyddiol i ysgolion gyhoeddi dyddiadau eu tymhorau gan y bydd hyn yn ein helpu wrth gynllunio ein gweithgarwch arolygu.

Rydym yn croesawu cryfhau'r gofyniad i hysbysu Llywodraeth Cymru am newidiadau arfaethedig **cyn** gwneud y newidiadau. Yn achlysurol yn ystod gweithgarwch arolygu, down yn ymwybodol o adeiladau a chyfleusterau sy'n cael eu defnyddio nad ydynt yn rhan o gofrestrriad ysgol.

Cwestiwn 6.2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig â darparu gwybodaeth?

Rhowch sylwadau ychwanegol

Dim sylwadau pellach

Safon 7 – Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Cwestiwn 7.1 – Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 7?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymeg

At ei gilydd, rydym yn cytuno â chryfhau Safon 7 i gynnwys cyfeiriad at ddisgyblion a disgyblion preswyl.

Cwestiwn 7.2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig â'r modd yr eir i'r afael â chwynion?

Rhowch sylwadau ychwanegol

Dim sylwadau pellach

Deddfwriaeth arall arfaethedig

Cwestiwn DAA1 – Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2023 a Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) 2023?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymeg

Rydym yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2023 a Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) 2023, yn enwedig manylion am fuddiannau busnes gan y bydd hyn yn amlygu unrhyw wrthdaro buddiannau.

Mae'r newidiadau a gynigir yn sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn dal y wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion ac yn sicrhau bod y flaenoriaeth uchaf yn cael ei rhoi i ddiogelwch dysgwyr trwy sicrhau mai unigolion addas yn unig sy'n gallu gweithredu ysgolion annibynnol.

Cwestiwn DAA2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig â Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2023 a Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) 2023?

Rhowch sylwadau ychwanegol

Rydym yn croesawu'r gofyniad i gynnwys manylion am Haen 4 yn y datganiad blynyddol ysgolion.

Dyletswydd i adrodd am blentyn sydd mewn perygl o niwed

Cwestiwn DIA1 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno gofyniad ar berchnogion, llywodraethwyr neu ymddiriedolwyr ysgolion annibynnol a phob un o'r staff a'r gwirfoddolwyr i hysbysu'r awdurdod lleol pan maent yn gwybod neu'n amau'n rhesymol fod plentyn, sy'n ddisgybl yn yr ysgol, yn profi cam-drin, esgeulustod neu niwed, neu mewn perygl o hynny?

Ydw	✓	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	---	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch eich rhesymeg

Rydym yn cytuno'n gryf â'r cynnig i gyflwyno gofyniad ar berchnogion, llywodraethwyr neu ymddiriedolwyr ysgolion annibynnol a holl aelodau staff a gwirfoddolwyr i hysbysu'r awdurdod lleol pan maent yn gwybod neu'n amau'n rhesymol fod plentyn, sy'n ddisgybl yn yr ysgol, yn profi cam-drin, esgeulustod neu niwed, neu mewn perygl o hynny.

Cwestiwn DIA2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig â'r cynnig hwn neu'i effeithiau posibl?

Rhowch sylwadau ychwanegol

Dim sylwadau pellach

Cwestiynau gorfodol

Cwestiwn gorfodol 1 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2023, Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2023 a Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) 2023 arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Credwn na fydd y rheoliadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y Gymraeg gan fod y rheoliadau diwygiedig yn parhau i wneud cyflwyno'r Gymraeg mewn ysgolion annibynnol yn ddewisol.

Cwestiwn gorfodol 2 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Dim sylwadau pellach

Cwestiwn gorfodol 3 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Dim sylwadau pellach

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: